

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
25 Mawrth 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i adran 54 (prif weithredwyr) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Maent hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â swyddogion presennol sydd wedi'u dynodi'n bennaethiaid gwasanaeth taledig ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, yn ogystal â darpariaeth ddirymu mewn perthynas â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006").

Daw'r Rheoliadau i rym ar 5 Mai 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 54 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) benodi prif weithredwr. Mae'r gofyniad hwn yn disodli'r gofyniad ar brif gynghorau i ddynodi un o'u swyddogion yn bennaeth gwasanaeth taledig o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").

Mae Atodlen 5 o Ddeddf 2021 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol yn sgil adran 54, fodd bynnag, nid yw diwygiadau sy'n ganlyniadol i is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnwys yn yr Atodlen honno.

Daw adran 54 o Deddf 2021, ac Atodlen 5 y Ddeddf honno i rym ar 5 Mai 2022 yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021(erthygl 6(h) a (s)).

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adran 173(1) o Ddeddf 2021 ac adran 8(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").

Mae adran 174(6) o Ddeddf 2021 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adran 173(1) o Ddeddf 2021. Mae adran 190(2) o Ddeddf 1989 yn darparu y bydd yr un weithdrefn yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adran 8(4) o'r Ddeddf honno.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Fel y nodwyd uchod yn adran 3, mae Atodlen 5 o Ddeddf 2021 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol yn sgil adran 54 o Ddeddf 2021, fodd bynnag, nid yw diwygiadau sy'n ganlyniadol i is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnwys. Mae'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau

canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth, darpariaeth drosiannol mewn perthynas â phenaethiaid gwasanaethau taledig presennol ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a darpariaeth ddirymu mewn perthynas â Rheoliadau 2006.

Mae Rheoliad 1 yn nodi teitl a dyddiad cychwyn y Rheoliadau. Daw'r Rheoliadau i rym ar 5 Mai 2022.

Mae Rheoliadau 2 - 8 yn gwneud newidiadau sy'n ganlyniadol i'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997
- Rheoliadau 2006
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014.

Mae Rheoliad 9(1) yn nodi'r ddarpariaeth drosiannol, sy'n darparu bod y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod o dan adran 4 o Ddeddf 1989 yn union cyn 5 Mai 2022 i'w drin fel y prif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf 2021. Mae Rheoliad 9(2) yn darparu nad yw'r gyfundrefn benodi a nodir ym mharagraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Rheoliadau 2006 yn gymwys i'r penaethiaid gwasanaeth taledig sy'n cael eu trin fel prif weithredwyr o dan reoliad 9(1).

Mae Rheoliad 10 yn dirymu rheoliad 11 o Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006. Nid yw'r ddarpariaeth hon bellach yn cael effaith yn ymarferol.

5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn gan fod y Rheoliadau ond yn gwneud diwygiadau technegol canlyniadol a darpariaeth drosiannol yn unig. Ymgynghorwyd ar y polisi mewn perthynas ag adran 54 o Ddeddf 2021 yn rhan o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("y Bil").

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau gan eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth bresennol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddirymu, ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Dangosodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil nad oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r ddyletswydd adran 54 i benodi prif weithredwr.